

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Rhithiol y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021 am 2.00 p.m.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr R Dew, Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, R LI Jones, R. Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRAGS, Dylan Rees, Alun Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol (MW),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN
BRESENNOL:** Neb

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Eric Wyn Jones, Richard O Jones a Gary Pritchard.

1. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Glyn Haynes yn Gadeirydd y Cyngor Sir 2021/22.

Wrth dderbyn yr anrhydedd o gael ei benodi, rhoddodd y Cyngorydd Glyn Haynes sicrwydd i'r Cyngor y byddai'n cyflawni ei ddyletswyddau hyd orau ei allu. Diolchodd i'w olynnydd, y Cyngorydd Margaret M Roberts am y modd yr aeth ati i gyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd y Cyngor Sir gydag urddas ac anrhydedd yn ystod cyfnod anodd y pandemig.

Diolchodd y Cadeirydd ymadawol, Y Cyngorydd Margaret M Roberts i'r holl Aelodau a Swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei dau dymor fel Cadeirydd oherwydd y pandemig. Nododd ei bod wedi bod yn her cynnal gwasanaethau'r

Cyngor ac roedd yn dymuno diolch i staff y Cyngor am eu gwaith. Dywedodd y Cyngorydd Roberts er nad oedd wedi gallu cyflawni ei dyletswyddau dinesig fel Cadeirydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ei bod yn dymuno diolch i Mrs Carys Bullock a Mr J Huw Jones o'r Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd. Fodd bynnag, rhoddodd grynodedb o'i huchafbwyntiau fel Cadeirydd yn ystod blwyddyn ddinesig 2019/20 yn benodol Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghaergybi a chyflwyno Rhyddid y Sir i Wasanaeth Llongau Tanfor y Llynges Frenhinol. Ar yr un diwrnod mynychodd Wasanaeth Coffa i nodi 80 mlynedd ers colli HMS Thetis. Cyfeiriodd hefyd at Seremoni Wobrwyo'r Twrnaint Pêl-droed a oedd yn rhan o Gemau'r Ynsoedd yng Nghaergybi a'r Diwrnod Hwyl i Blant Mewn Gofal yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Cyfeiriodd at Sul y Cadeirydd yng Nghapel Carmel, Moelfre a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021, gyda'r elw'n mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR

Cynigodd y Cyngorydd Ieuan Williams ethol y Cyngorydd Dafydd Roberts fel Is-gadeirydd y Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyngorydd Llinos M Huws.

Dywedodd y Cyngorydd Bryan Owen y byddai aelodau'r Wrthblaid yn atal eu pleidlais gan fod dealltwriaeth wedi bod rhwng y pleidiau gwleidyddol ers 2011 y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn newid yn flynyddol rhwng y grŵp llywodraethu a'r wrthblaid bob yn ail.

Gofynnodd Arweinydd y Cyngor a oedd disgwyliad yn y Cyngor bod y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cael eu hethol rhwng y grŵp llywodraethu a'r wrthblaid. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd gofyniad statudol, nac yn y Cyfansoddiad, i ethol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion rhwng y grŵp llywodraethu a'r wrthblaid. Roedd proses yn ei lle, sef cytundeb anffurfiol, pan roddwyd y Cyngor dan fesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru ond nid yw'r broses wedi parhau wedi hynny.

Dywedodd y Cyngorydd A M Jones bod protocol anffurfiol yn bodoli yn y Cyngor yn 2013-2017 a bod y grŵp llywodraethu wedi torri'r protocol hwn. Mynegodd ei bod hi'n biti bod y grŵp llywodraethu'n mynnu gwneud y broses o enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd o'r Cyngor yn un wleidyddol.

Cynigodd y Cyngorydd J Arwel Roberts bleidlais wedi'i chofnodi. Eiliwyd y cynnig o bleidlais wedi'i chofnodi gan y Cyngorydd Ieuan Williams.

Cynghorodd y Swyddog Monitro yn unol â pharagraff 4.1.18.4 yn y Cyfansoddiad y gellid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi os oes 8 Aelod yn cefnogi'r cynnig.

Yn unol â pharagraff 4.1.18.4 yn y Cyfansoddiad gofynnodd yr aelodau canlynol am bleidlais wedi'i chofnodi:-

Y Cynghorwyr T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, A M Jones, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Nicola Roberts, Dafydd R Thomas, Robin Williams.

Trwy bleidlais wedi'i chofnodi penodwyd y Cynghorydd Dafydd Roberts fel Is-gadeirydd o'r Cyngor :-

O blaid

Y Cynghorwyr R A Dew, John Griffith, Richard Griffiths, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos M Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, G O Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE FRAgS, Dylan Rees, Margaret M Roberts, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J Arwel Roberts, Nicola Roberts, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams. **CYFANSWM 20**

Yn erbyn

Neb

CYFANSWM 0

YMATAL

Y Cynghorwyr Jeff Evans, K P Hughes, A M Jones, R LI Jones, Bryan Owen, Peter Rogers. **CYFANSWM 6**

PENDERFYNWYD ethol y Cadeirydd Dafydd Roberts yn Is-gadeirydd o'r Cyngor Sir 2021/22/

3. DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

4. CYHOEDDIADAU

Ni dderbyniwyd yr un cyhoeddiad.

5. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

PENDERFYNWYD cadarnhau rhan o'r fath o'r Cynllun Dirprwyo fel y mae'r Cyfansoddiad yn gorchymyn ei bod yn fater i'r Cyngor ei benderfynu fel y nodir yn Rhan 3.2 o'r Cyfansoddiad.

6. CADARNHAU PWYLLGORAU

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodiad y strwythur Pwyllgorau fel y cyfeiriwyd ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:

- Pwyllgor Tâl a Graddfeydd (Is-bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-bwyllgor Indemniadau

7. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD - AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 o'r Cyfansoddiad, enwodd yr Arweinydd y Cynghorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio :-

Cynghorydd Richard Dew gyda chyfrifoldebau Portffolio am Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd;

Cynghorydd Llinos M Huws (Arweinydd) gyda chyfrifoldebau Portffolio am Wasanaethau Cymdeithasol;

Cynghorydd Carwyn Jones gyda chyfrifoldebau Portffolio am Brosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd;

Cynghorydd R Meirion Jones gyda chyfrifoldebau Portffolio am Addysg, Pobl Ifanc, Llyfrgelloedd a Diwylliant;

Cynghorydd Alun Mummery gyda chyfrifoldebau Portffolio am Dai a Chefnogi Cymunedau;

Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS gyda chyfrifoldebau Portffolio am Briffyrdd, Eiddo a Gwastraff;

Cynghorydd Dafydd R Thomas gyda chyfrifoldebau Portffolio am Wasanaethau Corfforaethol;

Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd) gyda chyfrifoldebau Portffolio am Drawsnewid a'r Gymraeg;

Cynghorydd Robin Williams gyda chyfrifoldebau Portffolio am Gyllid.

8. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR GYFER 2020/21

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad, **PENDERFYNWYD** y dylid ethol y Cynghorydd Robert LI Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2021/22.

9. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL O FEWN Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghylch cydbwysedd gwleidyddol o fewn y Cyngor i'w ystyried.

PENDERFYNWYD :-

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**
- **Bod Arweinwyr Grŵp yn cynghori'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl os oes unrhyw newidiadau i Aelodaeth Grŵp ar Bwyllgorau.**

10. CYRFF ALLANOL 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Cyrff Allanol i'w ystyried.

PENDERFYNWYD cytuno a chadarnhau penodiadau fel y manylir yn amserlen yr adroddiad.

11. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

12. RHAGLEN GYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2021/22

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredinol y Cyngor Sir am y flwyddyn i ddod: -

- 7 Medi, 2021 – 2.00 y.h
- 28 Medi, 2021 – 2.00 y.h
- 26 Hydref, 2021 (Arbennig) – 2.00 y.h
- 7 Rhagfyr, 2021 – 2.00 y.h
- 22 Chwefror, 2022 – 2.00 y.h
- Mai 2022 (Cyfarfod Blynyddol) – dyddiad i'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben am 2.55 pm

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**